

RHYBUDD o benderfyniadau cyfarfod hybrid y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd 19 Medi, 2023

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John I Jones,
Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret M Roberts, Ken Taylor
a Sonia Williams

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig) (Aelod
Cyfetholedig)
Mrs Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector
Ysgolion Cynradd)

Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu
Economaidd

Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg
a'r Gymraeg

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Derek Owen

**Hefyd yn
Bresennol:** Y Cynghorydd Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden,
Twristiaeth a Morwrol)

Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a
Phrofoiad Cwsmer

Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau
Oedolion

Y Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio,
Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd

Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd,
Eiddo a Gwastraff

Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod
Portffolio Cyllid

Y Cynghorydd Dyfed W Jones a Keith Roberts (Aelodau o'r
Pwyllgor Sgriwtini Addysg)

Mr Arwyn Thomas, Sharon Vaughan a Gwenno Jones
(Cynrychiolwyr GwE)

(2.00 o'r gloch yf - 4.15 o'r gloch yf)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Datganiad o Ddiddordeb
PENDERFYNIAD	<p>Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4, Ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Adolygiad Darpariaeth Brys) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.</p> <p>Bu i'r Cynghorwyr Jeff Evans a John I Jones ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Adolygiad Darpariaeth Brys)
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn ymateb drafft y Cyngor a gyflwynwyd gyda'r adroddiad yn amodol ar y canlynol:- • Bod y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried yr wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y Prif Swyddog Tân; • Cynnig y sylwadau canlynol i'w hystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth fel rhan o'r broses adolygu cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Medi, 2023:- <ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru adolygu ei drefniadau gweinyddol a chostau canolog fel sail i'r broses o bennu'r ardoll a bod Swyddogion 151 yng Ngogledd Cymru yn cael cyfrannu at y broses; • Gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried nodi'r ardoll a godir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ar filiau Treth Gyngor trigolion lleol;

	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried ffactorau megis gwydnwch y ddwy bont a chymunedau gwledig De Ddwyrain yr Ynys mewn perthynas ag Opsiwn 3; • Nodi bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r tri opsiwn sy'n cael eu cynnig gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Materion Addysg
PENDERFYNIAD	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn: 2022/2023 PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn: 2022/2023. • Adroddiad Cynnydd gan y Panel Sgriwtini Addysg PENDERFYNWYD:- • Nodi'r cynnydd dros y cyfnod diwethaf gyda gwaith y Panel Sgriwtini Addysg; • Nodi'r cynnydd sylweddol a wnaed wrth ddatblygu model craffu diwygiedig ar faterion Addysg fel sail i waith y Panel Sgriwtini Addysg a'r ddau riant Bwyllgor Sgriwtini. • Siarter Craffu Addysg PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Siarter fel sail ar gyfer craffu materion Addysg; • Nodi'r bwriad i ddatblygu'r ddogfen maes o law fel Siarter Craffu cyffredinol ar draws ystod gwaith sgriwtini'r Cyngor.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Blaen Raglen Waith
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD :- <ul style="list-style-type: none">• Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24;• Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.